**Pwyllgor Diwylliant – CC-15-01(p.1)**

**Dyddiad:** 24ain Hydref 2001

**Amser:** 10.00am-13.00pm

**Lleoliad:** Neuadd Brangwyn, Abertawe

**Ymateb Dinas a Sir Abertawe i Adolygiad y Pwyllgor Diwylliant o'r Iaith Gymraeg**

**Cyflwyniad**

Croesawn y cyfle i gynnig sylwadau ar sefyllfa'r Gymraeg a beth fydd dyfodol yr iaith yng Nghymru. Fel un o'r 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru yr ydym yn ymroddedig, trwy gyfrwng Deddf yr Iaith Gymraeg, i gynhyrchu Strategaeth Iaith a darparu ar gyfer Siaradwyr Cymraeg o fewn yr Awdurdod. Mae'n bedair blynedd bellach ers i ni ddechrau gweithredu Cynllun yr Iaith Gymraeg ac yr ydym yn dibynnu'n fawr ar allu ieithyddol ein gweithwyr, eu hewyllys da a'u parodrwydd i ddefnyddio'r iaith. Mae'r rhan fwyaf o'r sylwadau a nodir yn y papur hwn wedi cael eu datblygu o'r sylwadau a wnaed yng nghyfarfodydd Tîm Gweithredu Corfforaethol yr Iaith Gymraeg. Mae aelodau o'r Tîm hwn yn cynrychioli pob Adran o fewn y Cyngor.

**Thema: Teuluoedd a Chymunedau**

Y Gymraeg yn chwalu yn y gymdeithas

Yr ydym yn bryderus bod y defnydd o'r Gymraeg y tu allan i'r teulu neu gymuned yr ysgol yn chwalu. Mae nifer o siaradwyr Cymraeg gennym o fewn yr Awdurdod sy'n credu nad ydynt yn rhugl mwyach yn yr iaith ac maent yn ymwybodol nad ydynt wedi cael cyfle i gynnal neu ddatblygu sgiliau iaith i lefel broffesiynol. Mae'n rhaid hybu'r iaith y tu allan i'r gweithle er mwyn i bobl fod yn barod i ddefnyddio y sgiliau iaith sydd ganddynt yn y gweithle. Ni allwn ddibynnu ar gymunedau Cymraeg eu hiaith na'r system addysg i ddarparu'r holl sgiliau iaith y mae eu hangen yn y sector cyhoeddus a phreifat yng Nghymru.

Darpariaeth addysg genedlaethol

Mae'n rhaid cael Strategaeth Genedlaethol ar gyfer addysg barhaus er mwyn i bobl allu uwchraddio eu sgiliau iaith yn eu maes gwaith neu weithgaredd perthnasol. Mae angen cael Cynllun Cenedlaethol i ddatblygu'r iaith er mwyn i bobl allu dysgu defnyddio'r Gymraeg ym mhob maes gwaith, o hyfforddi pêl-droed i ymarfer y gyfraith ac arlwyo. Ni ddylai'r hyfforddiant hwn fod yn ôl mympwy'r cyflogwr nac yn fater o lwc i'r gweithiwr.

**Thema: Datblygiad Economaidd**

Yr iaith yn dibynnu ar gryfder economaidd

Ystyrir mai un o'r mesurau mwyaf positif y gellir eu gweithredu o ran cynnal yr iaith yw ceisio diogelu sylfaen economaidd cymunedau lle mae'r Gymraeg yn cael ei siarad gan ganran sylweddol o'r boblogaeth. Mae tri phrif aneddiad o fewn Dinas a Sir Abertawe lle mae canran eithaf uchel o siaradwyr Cymraeg, sef:

Pontarddulais 47.1% (cyfrifiad 1991)

Clydach 26.6%

Gorseinon 24.8%

Mawr 53.3%

Mae mentrau adfywiad economaidd wedi cael eu gweithredu ac yn cael eu gweithredu yn nhri o'r canolfannau hyn gyda'r nod o gynnal y gymuned. Mae'n ymddangos bod hon yn ffordd bositif ymlaen o ran cadw'r boblogaeth sy'n weithredol yn economaidd gyda manteision o ran cynaliadwyedd gymdeithasol.

Ni fydd y model economaidd sydd â'r Brifddinas fel y ffocws mwyaf o weithgaredd economaidd o fudd i Gymru gyfan. Hoffem weld y Cynulliad yn cymryd cyfrifoldeb dros hybu pob ardal yng Nghymru ac yn ystyried yr effaith a gaiff y strategaethau sy'n cael eu llunio ym maes datblygiad economaidd ar y Gymraeg.

Sgiliau galwedigaethol

Mae'r galw am siaradwyr Cymraeg mewn Awdurdodau Lleol a busnes preifat ar gynnydd, ac mae'n rhaid i ni sicrhau bod cronfa o weithwyr sy'n siarad Cymraeg ar gael. Mae sgiliau iaith yr un mor bwysig â chymwysterau addysgol a galwedigaethol ond nid oes gennym gorff i fonitro'r cyflenwad cenedlaethol o sgiliau Cymraeg a hyfforddiant iaith. Hoffem ddatgan bod 'Y Gymraeg yn ddymunol' ar broffil swyddi a gallu dewis o blith nifer o ymgeiswyr sydd â lefelau amrywiol o allu ieithyddol. Ar hyn o bryd, wynebir anawsterau wrth ddewis ymgeiswyr sy'n siarad Cymraeg oherwydd bod y gronfa o siaradwyr Cymraeg, neu'r rheiny sy'n gallu ac yn barod i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle mor fach. Hoffem gael y sicrwydd o allu dewis o blith ymgeiswyr o safon uchel am swyddi lle yr ydym yn datgan bod "Y Gymraeg yn Hanfodol". Ar hyn o bryd, mae methu â llenwi swydd oherwydd bod proffil yr iaith Gymraeg yn rhwystr i ymgeiswyr yn achos pryder i ni.

### Gwerth economaidd y Gymraeg

Mae angen Ymgyrch Genedlaethol hefyd i gydnabod gwerth yr iaith i'r economi leol. Mae defnyddio'r Gymraeg yn y farchnad-le yn targedu siaradwyr Cymraeg fel defnyddwyr ac yn targedu ymwelwyr i Gymru trwy hybu iaith sy'n unigryw i Gymru. Fel gwlad, mae'n rhaid i ni gydnabod ein bod mewn sefyllfa unigryw i gynnig rhywbeth sy'n wahanol i'r profiad arferol o wyliau ym Mhrydain. Hoffem weld cwmnïau brodorol a chwmnïau rhyngwladol yn defnyddio'r Gymraeg er mwyn ei hybu yn yr amgylchedd bob dydd. Gan nad yw Deddf yr Iaith Gymraeg yn cwmpasu'r sector preifat, y Cynulliad yw lefel gywir y Llywodraeth i hybu'r iaith yn y farchnad-le.

## Thema: Ymchwil a Datblygiad

### Ysgol Ragoriaeth Cymru

Byddai sefydlu academi iaith annibynnol fel ysgol ragoriaeth i'r Gymraeg yn well na phartneriaeth o asiantaethau presennol, fel a gynigir. Byddai mewn sefyllfa i ddwyn ynghyd gwybodaeth bresennol yn ogystal â chomisiynu gwaith ymchwil y gallai Cymru gyfan ei ddefnyddio. Byddai sefydliad ar wahân yn well oherwydd ei bŶer archwilio annibynnol a'r ffaith ei fod yn fwy democrataidd na chorff a ffurfiwyd o gronfa o gwangos.

### Iaith safonedig

Mae angen i ni gael termau a geiriau Cymraeg *generig/cyffredin*. Mae cysoni termau ar draws Cymru yn fater o synnwyr cyffredin. Dylai'r Cynulliad Cenedlaethol fod yn gyfrifol am yr iaith a phenodi corff addas, academi genedlaethol o bosib, i weithio gydag ymarferwyr i gynhyrchu rhestrau termau parhaus. Ar hyn o bryd, mae sawl corff yn gweithio yn y maes hwn ond nid oes y cydlyniad a ddaw gyda chynllun cyffredinol. Byddai terminoleg ganolog yn dileu camgymeriadau mewn gwybodaeth gyhoeddus ac yn rhoi eglurder a ffydd i ni yn yr iaith.

## Thema: Hybu dwyieithrwydd a chynnal consensws ac ewyllys da cenedlaethol

Nid yw gwarchod/sicrhau hawliau dinasyddion unigol yn ddigon i sicrhau eu rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg na'u dewis o ran yr iaith a ddefnyddir. Mae hawl casgliadol i ddefnyddio'r iaith ac mae angen adnabod a hybu hyn. Mae angen i siaradwyr Cymraeg gael mwy na rhyddid cyfartal i ddefnyddio'r iaith er mwyn sicrhau bod hen rwystrau cymdeithasol yn cael eu chwalu a bod yr iaith yn cael ei defnyddio y tu allan i feysydd arferol addysg a bywyd teuluol.

### Ymgyrch cynyddu ymwybyddiaeth

Mae'n rhaid i'r Cynulliad ymrwymo i gynnal ymgyrch cynyddu ymwybyddiaeth tymor hir i hybu'r Gymraeg. Nid yw canran mawr o'r cyhoedd yn gwybod ymadroddion cyffredin yn Gymraeg, ymadroddion y byddent yn eu dysgu pe byddent yn mynd ar wyliau i wlad dramor. Mae rhai pobl hyd yn oed yn ymateb yn negyddol pan gânt eu cyfarch yn Gymraeg neu'n ddwyieithog. Ar y llaw arall, mae pobl yn ymateb i'r iaith os cânt gyfle i ddysgu. Byddai ymgyrch proffil uchel i ddod â phobl i gysylltiad â Chymraeg bob dydd yn cyfoethogi eu bywydau. Byddai agwedd bositif tuag at yr iaith yn ei gwneud hi'n haws i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio eu hiaith.

Poblogeiddio'r iaith

Mae'n rhaid i'r Cynulliad hawlio'r Gymraeg i holl bobl Cymru. Mae'r Gymraeg yn ein gwneud ni'n unigryw mewn byd sy'n fwyfwy fyd-eang ac mae'n rhoi hunaniaeth a hunan-barch i ni fel cenedl. Byddai ymgyrch proffil uchel i'r Gymraeg yn sefydlu tir cyffredin ac yn cyfrannu'n helaeth at ddatrys materion iaith sy'n achosi anghydfod diangen ar hyn o bryd.

**Themâu Cyffredin**

1. **Normaleiddio**

Gwasanaethau cyhoeddus a phreifat

Mae Awdurdodau Lleol yn symud tuag at weithio'n fwyfwy mewn partneriaeth â'r sector preifat a gwirfoddol. Credwn y dylai'r rheiny sy'n darparu'r gwasanaethau hanfodol ddangos ymroddiad i wasanaeth Cymraeg sylfaenol yn yr un modd ag Awdurdodau Lleol. Mae'r defnydd o fanciau, archfarchnadoedd, pecynnau meddalwedd, cludiant, gofal iechyd, cyfleusterau hamdden, boed y rheiny'n eiddo cyhoeddus neu breifat, yn hanfodol i bobl Cymru. Dylai pob darparwr gwasanaeth wasanaethu holl bobl Cymru, hynny yw, darparu'r gwasanaethau yn Gymraeg ac yn Saesneg. Byddai canllawiau cenedlaethol i ddiffinio'r hyn sy'n ddarpariaeth Gymraeg dderbyniol yn rhoi sail gyffredin i ni. Y nod wedyn fyddai adeiladu ar y ddarpariaeth lefel sylfaenol honno a galw ar y Cynulliad i ddiffinio lefelau cyrhaeddiad o ran y ddarpariaeth Gymraeg. Mae dwy fantais i brif-ffrydio'r ddarpariaeth Gymraeg i'r cyhoedd. Yn gyntaf, byddai pob siaradwr Cymraeg yn gwybod pryd y gallant ddisgwyl gwasanaeth yn Gymraeg heb unrhyw warthnod. Yn ail, gall pawb sy'n byw yng Nghymru neu sy'n ymweld â Chymru wybod ein bod yn parchu'r iaith ac yn gweithio i'w chadw'n fyw a'i defnyddio bob dydd.

Mae angen i'r Cynulliad sefydlu Gwasanaeth Cymraeg lefel sylfaenol a gosod lefelau uwch i'r Gwasanaeth Cymraeg. Gallent achredu gwasanaethau nad ydynt yn rhai allweddol sy'n dewis darparu gwasanaethau yn Gymraeg. Mae'n rhaid i'r Cynulliad ddatgan na fydd gweithio yn Gymraeg a Saesneg yn golygu bod busnesau yn colli eu natur gystadleuol ond, yn lle hynny,

yn sefydlu sail gyffredin. Bydd polisi iaith cyffredin yn ad-drefnu'r ddarpariaeth gwasanaeth Cymraeg ac yn trin darparwyr a chleientiaid yn deg.

**Thema Gyffredin**

**3. Cynaliadwyedd gymunedol**

Hawliau'r gymuned

Mae hawl gan blant gael eu magu yn Gymraeg, cael eu hymdrwytho mewn diwylliant Cymraeg byw a byw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg. Gwyddem beth yw gwerth ein treftadaeth fyw ac mae dyletswydd arnom i sicrhau y gellir ei throsglwyddo i genedlaethau'r dyfodol. Er mwyn gwneud hyn mae angen i ni gynnal cymunedau lle mae'r Gymraeg yn iaith naturiol. Ni fydd yr iaith yn bodoli mewn gwactod cymdeithasol.

Gwerth cymdeithas amrywiol

Mae cymunedau Cymraeg eu hiaith yn rhan o ddarlun cymdeithasol amrywiol Cymru. Cyfrifoldeb Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw cynnal archwiliad o sefyllfa cymunedau gwledig neu gymunedau sy'n chwalu. Mae'n hanfodol i ragfynegi beth fydd yn digwydd i gymunedau Cymraeg eu hiaith. Os rhagwelir dirywiad, mae'n rhaid i'r Cynulliad wneud penderfyniad trwy ofyn a yw pobl Cymru am gefnogi cymunedau Cymraeg eu hiaith trwy gyfrwng strategaethau a chyllid penodol. Mae'n rhaid i'r Cynulliad allu trin y cymunedau hyn yn wahanol i weddill y wlad er mwyn cael yr un lefel o lwyddiant.

Cynllun cenedlaethol newydd

Nid ydym am i'r Gymraeg gael ei chyfyngu i gyrff cyhoeddus, ysgolion a'r cyfryngau yn unig. Er mwyn ceisio gwrthdroi degawdau o agwedd negyddol tuag at yr iaith, mae angen i'r Cynulliad fuddsoddi symiau sylweddol o arian i greu hinsawdd mwy ffrwythlon. Ni allwn aros a gobeithio y bydd agwedd y cyhoedd a'r amodau economaidd yng Nghymru yn newid a throi'n ffafriol i'r iaith. Mae'n rhaid i'r Cynulliad, fel gwarcheidwad Cymru, gymryd yr awenau er mwyn i'r gwaith a wnawn dros y Gymraeg fel Awdurdod gael ystyr go iawn yn nhrefn pethau yn gyffredinol.